# Protocol Trallod ar gyfer Templed Ymchwil Sensitif

Wrth gynnal ymchwil i bynciau sensitif neu drallodus, mae cyfrifoldeb ar ymchwilwyr i ystyried yn ofalus pa risgiau ychwanegol a allai godi o'r dulliau y maent wedi'u dewis.

Mae nifer o strategaethau y gellir eu rhoi ar waith i reoli'r lefel ychwanegol hon o risg gan gynnwys, cael proses gydsyniad gwybodus clir sy'n manylu ar y mathau o bynciau a fydd yn cael eu trafod, darparu adroddiad manwl a rhoi manylion ynghylch gwasanaeth cyfeirio perthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, argymhellir cynnwys protocol trallod i reoli sefyllfa lle mae cyfranogwr yn dod yn drallodus neu'n ofidus. Dylai hyn gynnwys cynllun gweithredu o'r camau a gymerir i sicrhau diogelwch y cyfranogwr yn ystod digwyddiad o'r fath.

Dylai ymchwilwyr ystyried beth i'w wneud pan fydd trallod yn codi, fodd bynnag, dylent hefyd fod yn ymwybodol o'r camau na ddylent eu cymryd.

- Ceisio darparu cyngor neu gymorth eich hun (y tu hwnt i wrando gydag empathi)
- Oedi cyn trefnu iddynt siarad â rhywun os ydynt wedi gofyn i hynny gael ei wneud.

Mae'r templed isod, sydd wedi'i addasu o Draucker CB, Martsolf DS & Poole C (2009) *Developing protocols for research on sensitive topics*. Archives of Psychiatric Nursing 23(5), 343-350, yn darparu'r camau y dylid eu hystyried, a dylid teilwra'r rhain i nodau eich ymchwil, eich methodoleg a'ch poblogaeth.

**Trallod**

- Mae'r Cyfranogwr yn dweud ei fod mewn trallod.
- Mae'r cyfranogwr yn dangos ymddygiad sy'n awgrymu ei fod mewn trallod. Er enghraifft crio, ysgwyd, cynnwrf, dicter.

**Ymateb**

- Rhoi’r gorau i’r ymchwil (os ydych chi’n dal data sain neu weledol, dylech stopio recordio, os ydych chi’n cynnal grŵp ffocws, symudwch y cyfranogwr trallodus i ofod preifat)
- Cynigiwch gymorth (gofynnwch iddyn nhw sut maen nhw'n teimlo, gwrandewch gydag empathi a rhowch amser iddyn nhw wella)
- Gofynnwch i'r cyfranogwr a yw'n teimlo'n ddiogel

**Adolygu**

- Gofynnwch i’r cyfranogwr a yw’n teimlo’n gyfforddus i barhau (ystyriwch wneud addasiadau i’r amserlen i osgoi gofid pellach)
- Os na all y cyfranogwr barhau, symudwch ymlaen i'r ail ymateb.

**Ail Ymateb**

- Gorffen casglu data
- Anogwch y cyfranogwr i gysylltu â'i Feddyg Teulu neu ddarparwr iechyd meddwl. Anogir y cyfranogwr i geisio cymorth gan eu pwyntiau cyswllt arferol.
- Neu gyda chaniatâd cynigiwch aelod o’r tîm ymchwil, dylid cysylltu â’r pwynt cyswllt priodol ar eu rhan

**Gwaith dilynol**

- Os yw'r cyfranogwr yn cydsynio, dilynwch hyn gyda galwad ffôn cwrteisi. NEU
- Anogwch y cyfranogwr i ffonio os bydd yn profi lefelau cynyddol o drallod yn yr oriau/diwrnodau ar ôl y cyfweliad.
- Dylai'r holl gyfranogwyr gael adroddiad manwl gyda manylion cyswllt sefydliadau perthnasol a lleoedd ar gyfer cymorth